PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 14 | Ebrill 3, 2025 | 50c.

**Cyfanswm terfynol Apêl Ffynhonnau Byw:**

**£71,099.08**

**Diolch i chi bob un!**



# Cyngor y gwanwyn
## Undeb yr Annibynwyr

Yr oedd ysbryd cadarnhaol a llawen wrth i gynrychiolwyr y cyrddau chwarter ymgynnull ar gyfer y Cyngor a'i adrannau yng ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Mae'r Cyngor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a hwn mewn gwirionedd yw melin drafod a phwyllgor gwaith yr Undeb. Y mae'r agenda'n cynnwys adroddiadau o'r amrywiol weithgareddau y mae'r Undeb yn ymwneud â hwy. Yn y pedair adran ceir cyfle i drafod yr hyn sydd wedi digwydd, ac i rannu gweledigaeth a syniadau ynglŷn â ffyrdd i weithredu dros deyrnas Dduw yn lleol a byd-eang. Cadeiriwyd y Cyngor gan Jeff Williams, Aberhonddu yn addfwyn a chadarn gan greu naws adeiladol.

Gwahoddwyd dau siaradwr gwadd i rannu gyda'r cynadleddwyr, sef Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn a Mari McNeill, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Gwaetha'r modd oherwydd salwch nid oedd Mari wedi gallu ymuno â ni.








Siaradodd Cynan yn feistrolgar ar y weledigaeth oedd ganddynt ar gyfer Cytûn i'r dyfodol. Gwelai bellach ein bod yn symud ymlaen o'r syniad o 'Un Eglwys unedig Gymreig 'a bellach mai'r weledigaeth yw creu ysbryd ecwmenaidd iach rhwng gwahanol draddodiadau a'i gilydd. Maent eisoes wedi gweld ffrwyth trwy i enwadau ac eglwysi newydd ymuno gyda Chytûn. Golyga hyn y bydd Cytûn i'r dyfodol yn gallu bod yn llais Cristnogol cryfach yma yng Nghymru. Yn ail ran ei anerchiad fe gyfeiriodd at apêl heddwch fu ym 1925 o dan arweiniad y Parchg Gwilym Davies a oedd yn arloesol yn ei agweddau at heddwch a chyfathrebu.

Yn absenoldeb Mari McNeill fe ddaeth Llinos Roberts, swyddog gyda Chymorth Cristnogol, i lenwi'r bwlch trwy ddarllen yr anerchiad yr oedd Mari wedi ei baratoi ac i dderbyn siec gyda chyfanswm terfynol casgliad yr eglwysi Annibynnol tuag at Apêl Ffynhonnau Byw sef £71,099.08. Rhannodd Robin Samuel hanes y paratoi ar gyfer yr apêl gyda ni a diolchwn iddo am ei waith hyrwyddo'r yn annog yr eglwysi i gynnal gweithgareddau.

*[Cynhaliwyd y Cyngor ar ddydd Gwener a Sadwrn 21–22 Mawrth.]*

*gweler mwy o'r Cyngor ar dudalennau 2 a 6*

# Adran Dinasyddiaeth Gristnogol

Dyma grynodeb o'r prif faterion a drafodwyd, dan gadeiryddiaeth y Parchedig Robin Wyn Samuel:



- ARocha (www.arocha.org.uk)

  Mae'r Pwyllgor Gweinyddol wedi argymell bod yr Undeb yn ariannu gwaith ARocha yng Nghymru am gyfnod o 3 blynedd (£10,000 y flwyddyn)

  Cyflwynodd Delyth Higgins, Swyddog Eco-eglwysi ARocha yng Nghymru, fanylion am y cynllun EcoChurch – rhaglen i gynorthwyo eglwysi i ymestyn eu gofal dros y greadigaeth.

  Mae ARocha wedi gosod nod o gyrraedd 20, 000 o eglwysi (Cymru a Lloegr) erbyn 2030.

  Bydd y Cyfarfod Blynyddol eleni yn ystyried cais i gefnogi gwaith ARocha ac i annog eglwysi i gofrestru fel eglwysi Eco. Beth am arddel yr enw EcoEglwys yng Nghymru?

- CYTÛN / Grŵp Laser Cytûn

  Cyflwynodd Emyr Gwyn Evans, cynrychiolydd yr adran ar Grŵp Laser Cytûn, flas o'r dogfennau polisi diweddaraf.

- Dyfodol dysgu'r Dyniaethau (astudiaethau crefydd) yng Nghymru

- Oblygiadau Treth Twristiaeth ar eiddo elusennau

- Gwariant ar Gymorth Tramor

- Eglwysi Dementia-gyfeillgar

  Bydd adolygiad o gynnwys y wefan ymhen 12 mis.

- Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

  Mae cyfres o bump fideo yn cael eu paratoi ar y themâu: Dillad / Bwyd / Teithio / Ynni / Gofal, i'w lansio yn ystod Eisteddfod yr Urdd eleni.

- Cymorth Cristnogol: Apêl Ffynhonnau Byw 2023/24

  Trosglwyddwyd swm terfynol o £71,099.08 i Gymorth Cristnogol.

  Cymorth Cristnogol : Faith Will

  Ymgyrch eciwmenaidd newydd i annog aelodau o'r eglwys i adael rhodd mewn ewyllys i Gymorth Cristnogol a'u heglwys leol, gan sicrhau budd i'r teulu Cristnogol yn lleol ac yn fyd-eang.

  Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhan o'r bartneriaeth.

  Mae dwy ffilm fer yn cael eu paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

- Anghenion Hyfforddi'r Adran:

  Awgrymwyd hyfforddiant gwrth - hiliaeth.

- Ymateb i un o bynciau llosg y dydd: Hawl i Farw




  Nodwyd adroddiadau ysgrifenedig ar y mater yma.

- Ymgysylltu ag Eglwysi – prosiect Trussell yng Nghymru:

  Trefnir cyfarfod gydag Ymgynghorydd Ymgysylltiad Eglwysig Cymru yr elusen.

**Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd**

# Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth

Wedi cyflawni gofynion cychwynnol ein hagenda cafwyd adroddiad cryno, ond manwl a chywir o waith y Panel Diogelu Cydenwadol gan y Parchedig Jill-Hailey Harries. Mawr ein diolch am waith trylwyr a dygn y panel hwn. Arweiniodd hyn at adroddiad y Parchedig Carwyn Siddall am faterion hyfforddi. Llongyfarchwyd ef am ei waith. Cafwyd trafodaeth frwd am yr angen i ddiweddaru'r Cynllun Arweinyddion. Penderfynwyd gwneud dogfen 2013/14 yn fan cychwyn i ffurfio dogfen newydd, gyfoes. Bydd panel yn ymgynnull yn brydlon i fynd i'r afael â'r gwaith.

Aethpwyd ymlaen i drafod cod ymddygiad i weinidogion. Bu'r drafodaeth yn gryno a disgybledig gan mor gymhleth y mater a'r gofynion. Bydd y mater hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Gweinyddol am gyngor pellach.

Nesaf, bu trafodaeth ar batrymau a modelau gweinidogaeth yn benodol felly, sut y gellid ystwytho'r diffiniad o natur y weinidogaeth a hynny'n arwain at



ambell sylw parthed adolygu a gwirio cynnwys tudalennau 104 a 113 yn y Blwyddlyfr. Cyfarfod da a gafwyd. Mawr ddiolch i aelodau'r adran am bob ymroddiad, ac i'r Parchedig Casi Jones am gofnodi.

**Owain Llŷr Evans, Ysgrifennydd**

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 3 2025 RHIF 214

## Lansio cyfrol newydd!

Golygfa hardd oedd gweld festri Capel Heol Awst yn orlawn o gyfeillion, o bell ac agos, ar gyfer lansio llyfr arbennig brynhawn Llun, 24 Mawrth 2025. Yno hefyd roedd tri thîm teledu: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* a *Prynhawn Da*!


Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, sef cwmni cyhoeddi dan adain Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru.

Canwyd yr emyn 'Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw' i gyfeiliant Meilyr Hedd Tomos, Abergwaun, un sy'n canu'r piano'n rheolaidd i gefnogi gwahanol achosion da. Darllenwyd o'r Beibl gan y Parchedig Dewi Myrddin Hughes a chyflwynwyd y weddi gan y Parchedig Siân Elin Thomas.

Yr achlysur oedd lansio cyfrol newydd sy'n dwyn y teitl *Hoff Adnodau'r Cymry*. Mae'n cynnwys hoff adnodau 60 o Gymry adnabyddus a'u rhesymau dros eu dewis. Ein Gweinidog, Beti-Wyn James, gafodd y fraint o gasglu'r gwahanol gyfraniadau – gwaith a roddodd bleser mawr iawn iddi. Cyflwynwyd y gyfrol newydd sbon danlli hon iddi gan Rheinallt Thomas, Llywydd Anrhydeddus Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Wrth ymateb, diolchodd Beti-Wyn am bob cyfraniad, gan obeithio y byddai cynnwys y gyfrol o gymorth i fyfyrdod personol ac i addoliad eglwysig.








Diddorol oedd clywed tri o'r cyfranwyr yn mynegi eu profiad o ddewis adnod, sef Tudur Dylan Jones ('Byddwch heddychlon tuag at eich gilydd', Marc 9:50), Rachael Garside ('O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear', Salm 8) a Beti-Wyn ei hunan ('Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben', Luc 24:29). Mae'n werth darllen cyfraniadau'r tri yn llawn yn y gyfrol, ynghyd ag amrywiaeth o ysgrifau gan eraill – y cyfan yn cyfrannu at gasgliad cyfoethog iawn o wahanol brofiadau yn seiliedig ar adnodau yn y Beibl.

Hawdd rhag-weld y bydd mynd mawr ar y gyfrol hon. Cafwyd dechrau da i'r gwerthiant, a barnu oddi wrth y nifer a brynwyd ar ddechrau a diwedd y cyfarfod, a Beti-Wyn yn cadw'n brysur gyda'r holl waith llofnodi!

Yn dilyn y diolchiadau, canwyd yr emyn 'O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi' i gloi rhan ffurfiol y prynhawn hynod o ddymunol a phleserus hwn.

Gwahoddwyd pawb at y byrddau cyn ymadael. Bu digon o gymdeithasu a sgwrsio, a diolch i chwiorydd Heol Awst am de pnawn bendigedig a oedd wrth fodd calon pob un ohonom.

*Alun Charles*
*Papur Misol Elim, Heol Awst a'r Priordy*

***Hoff Adnodau'r Cymry*, gol. Beti-Wyn James,**
**Cyhoeddiadau'r Gair, Mawrth 2025; pris: £9.99**

## Agor y Llyfr ym Mro Cernyw



Criw Agor y Llyfr Bro Cernyw yn Ysgol Bro Cernyw

Crëwyd grŵp Agor y Llyfr ym Mro Cernyw, sy'n rhan o Ofalaeth Bro Nant Conwy, yn ystod 2024. Wedi cynnull rhai â diddordeb at ei gilydd, daeth Mrs Sarah Morris atom i gynnal hyfforddiant ar gyfer cyflwyno hanesion o'r Beibl mewn ysgol leol. Y cam nesaf oedd cofrestru pob un o'r grŵp gydag 'Agor y Llyfr' dan law Cymdeithas y Beibl. Er ein bod braidd yn betrus am actio'n gyhoeddus ar y dechrau, wedi ychydig o ymarfer dan ofal ein Gweinidog, y Parch. Owain Davies, penderfynwyd mynd amdani cyn y Nadolig.

Dewiswyd y stori 'Ymlaen i Fethlehem' i gyflwyno hanes y Nadolig, a Mair a Joseff yn chwilio am lety ym Methlehem. Mi gawsom rai o ddisgyblion Blwyddyn 6 i'n helpu i gyflwyno'r stori ac roedd cyfle i'r holl blant gymryd rhan drwy wneud sŵn anifeiliaid, edrych yn drist ac ochneidio bob tro clywid y gair 'Ofnadwy' ac edrych yn hapus a chodi bawd pan glywid y gair 'Rhyfeddol'. Cafwyd ymateb da gan y plant. Ceir gweddi ar y diwedd a chyfle i'r plant ddweud 'Amen' os ydynt yn dymuno.


Yr wythnos diwethaf aethom yn ôl i'r ysgol i gyflwyno'r stori 'Ble mae Iesu?', sef hanes Mair a Joseff yn teithio i Jerwsalem ar Ŵyl y Pasg a deall bod Iesu ar goll wrth deithio am adre. Buom yn ffodus o gael staff yr ysgol i actio'r athrawon yn y deml! A daeth plant Blwyddyn 5 i gyd atom i actio tyrfa yn cerdded i Jerwsalem.

Er ein bod braidd yn nerfus, rydym yn falch o'r cyfle i gael rhannu rhai o hanesion y Beibl â'r plant mewn ffordd wahanol. Gweddïwn y byddant yn cofio'r hanesion ac yn meddwl am Iesu a Duw.

*Elwen Owen*

# *Y Traethodydd* yn cofio hanesydd disglair

Dwy deyrnged ddwys a diffuant i un o'r mwyaf o'n haneswyr, y diweddar Athro Geraint H. Jenkins, sy'n cael y lle blaenllaw yn rhifyn diweddaraf *Y Traethodydd*. Mae'r naill gan yr Athro Ceri Davies, cyfaill plentyndod ac oes i Geraint, a'r llall gan un o'i fyfyrwyr, sydd ers blynyddoedd yn un o'n haneswyr blaenaf, sef y Dr Eryn M. White. Mae'r ddwy yn disgrifio'i waith ac yn tafoli'i gyfraniad ac wrth ddadlennu peth o bersonoliaeth Geraint, maent yn ein hatgoffa o'r golled a gawsom yn ei ymadawiad. Y gyfres *Cof Cenedl* yw un o gymynroddion Geraint i'r cenedlaethau a ddaw ar ei ôl, a bydd ei gyfrolau ysblennydd yn para i'n goleuo am flynyddoedd eto. Heddwch i'w lwch.




Yn ogystal â'r uchod, cawn ddarllen ail ran ysgrif gynhwysfawr yr Athro Gruffydd Aled Williams ar Walter Brut, y Cymro o'r Gororau a gyfunodd ei radicaliaeth grefyddol â chefnogaeth frwd i Owain Glyndŵr. Mae'r stori yn un ddiddorol a'r cyflwyno'n afaelgar a gwn y cewch flas ar y dweud.

Wedyn mae John Emyr, yr awdur o Gaerdydd, yn trafod bywyd a gwaith y seicolegydd Cristnogol David Enoch, dyn sydd, er iddo fod ar y maes ers blynyddoedd, â chanddo air perthnasol ar gyfer y genhedlaeth bresennol. Gyda hynny mae Rhidian Griffiths, un o'n harbenigwyr pennaf ar y traddodiad canu yng Nghymru, yn traethu ar yrfa awdur y gân adnabyddus 'Unwaith eto 'Nghymru Annwyl'. Dyfed Lewys oedd y dyn, ac wrth forio canu anthem Cymru a'r Byd ym mhafiliwn y brifwyl, faint ohonom sy'n gwybod ei enw heb sôn am wybod dim amdano. Darllenwch yr ysgrif ddifyr hon er mwyn cael eich goleuo.

Bu'r ymateb i ran gyntaf 'Dyddlyfr Prifathro wrth ei Ewyllys' yn rhifyn mis Ionawr yn hynod ffafriol, a ninnau'n awchu am gael gwybod mwy am brofiadau Derec Llwyd Morgan, rhai difyr a dwys, fel Prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, o 1995 ymlaen. Ac yntau'n un o ffigyrau cyhoeddus amlycaf y genedl ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon, mae'n rhannu mwy eto am yr hyn a ddigwyddodd yn Aber, gan ganoli'r tro hwn ar y blynyddoedd 1997–8. Cewch gymaint o flas ar yr hanesion hyn ag a gawsoch y tro diwethaf. Amheuthun yw medru dweud y bydd mwy eto i ddod yn rhifynnau nesaf *Y Traethodydd*. Melys moes mwy.

Un adolygiad sydd yn y rhifyn presennol, un helaeth ar *Astudiaethau Athronyddol 9*, sy'n gyfrol cyfarch i E. Gwynn Matthews. Brodor o Ddyffryn Clwyd yw Gwynn Matthews, a dreuliodd oes yn dysgu athroniaeth, yn gyntaf dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac yna yr Adran Allanol ym Mhrifysgol Bangor. Ac yntau bellach yn byw yng Nghaerdydd, aeth ei gyd-weithwyr ati i lunio'r gyfrol hon. Dafydd Huw Rees a Gareth Evans-Jones yw'r golygyddion, Huw Williams sy'n crynhoi natur cyfraniad allweddol Gwynn i ddysgu athroniaeth trwy'r Gymraeg a'r Athro Howard L. Williams sy'n adolygu.

Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish ([rhian.melhuish@ebcpcw.cymru](mailto:rhian.melhuish@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Cymorth Cristnogol yn lansio apêl i helpu'r bobl yr effeithiwyd arnynt gan y daeargryn ym Myanmar

Ar 28 Mawrth 2025, trawodd daeargryn maint 7.7 yng nghanol Myanmar gyda'r uwchganolbwynt 16km i'r gogledd-orllewin o ddinas Sagaing, 10km dan wyneb y ddaear. Ddeuddeg munud ar ôl y daeargryn cyntaf, trawodd un arall 18km i'r de o Sagaing, maint 6.4, gan adael pobl wedi'u syfrdanu ac angen dŵr yfed, bwyd a lloches.

Mae gweinyddiaeth filitaraidd Myanmar wedi cyhoeddi wythnos o alar cenedlaethol, yn dilyn colli dros ddwy fil o fywydau. Ac mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi gwneud apêl frys am £8 miliwn, i weithio dan amodau heriol iawn yn y wlad.

Mae angen ymateb argyfwng brys, gyda mynediad dyngarol llawn.

Ewch i [https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/myanmar-earthquake-appeal](https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/myanmar-earthquake-appeal) i gyfrannu.

Yr Eglwys Fethodistaidd

## Swyddog Dysgu a Datblygu (siarad Cymraeg)

**Cyflog:** £41,810 y flwyddyn

Lleoliad Taleithiau

**Wales Synod Cymru a West Midlands / Gweithio o gartref**

*Mae hon yn swydd wag barhaol, 35 awr yr wythnos, a fydd yn cau ar 15 Ebrill am 23:59 BST.*

Mae'r rôl hon yn rhan o Rwydwaith Dysgu'r Tîm Cyfundebol, yn cefnogi, annog, ac arfogi'r Eglwys i fyw 'Ein Galwad' trwy addoliad, cenhadaeth, efengylu a disgyblaeth Gristnogol. Mae'r Rhwydwaith Dysgu yn gweithio'n bennaf gydag arweinwyr lleyg ac ordeiniedig, gan eu helpu i alluogi eraill.

Mae'r swydd hon yn cyfrannu at fentrau dysgu a datblygu Cyfundebol-gyfan, ac mae wedi'i chysylltu'n benodol â Thalaith Wales Synod Cymru fel Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg (SDD) a Thalaith newydd West Midlands.

Dyddiad cau: 15/04/2025

Cyfweliadau i'w cynnal: Dydd Mawrth, 6 Mai, yn Selly Oak, Birmingham

Am ragor o fanylion, ewch i Learning and Development Officer neu cysylltwch â Delyth Wyn Davies: [daviesd@methodistchurch.org.uk](mailto:daviesd@methodistchurch.org.uk)

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 5

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Cyrraedd ar draws ffiniau**

**Darlleniad**
*Ioan 4:1–42*

**Myfyrdod**
Casglodd Cyngor Nicea yr Eglwys fyd-eang ar draws rhwystrau a ffiniau hil, diwylliant, iaith a hunaniaeth. Myfyriwn gyda'n gilydd heddiw ar yr hyn y mae profiad ein taith eciwmenaidd wedi ein dysgu am estyn allan ar draws ffiniau, a ddangoswyd mor bwerus i ni yn esiampl Crist yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur. Yn ein hymwneud eciwmenaidd, cawn brofiad o beryglon ac ansicrwydd croesi ffiniau, mynd i fannau anghyfarwydd, a bod yn westeion yn ogystal â gwesteiwyr. Ar sail hyn, beth allwn ni ei gynnig i gymdeithas sy'n cael anawsterau oherwydd gwrthdaro, polareiddio, dieithrio a rhannu sy'n seiliedig ar hunaniaeth? Sut allwn ni rannu hyn orau yn y gwahanol gyd-destunau lle'r ydym yn gweithio?

Y llynedd, cynhaliwyd etholiadau pwysig yn yr ynysoedd hyn, gydag Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2024 ac Etholiad Cyffredinol Iwerddon ym mis Tachwedd. Y mis hwnnw hefyd rhoddwyd sylw byd-eang i ethol Arlywydd yr Unol Daleithiau, yn ymwybodol o'r goblygiadau ar gyfer heddwch a diogelwch rhyngwladol. Roedd pryderon am gamwybodaeth, ymgyrchoedd yn seiliedig ar dwyllwybodaeth a 'newyddion ffug' yn flaenllaw yn y dadleuon. Mae'r gamwybodaeth hon yn ymledu yn yr holltau yn ein perthynas â'n gilydd, gan lenwi'r pellter rhwng pobl ag anwybodaeth, drwgdybiaeth a gelyniaeth – nodweddion y gellir eu newid yn rhy hawdd o lawer yn gasineb a thrais.

Pan ystyriwn y cylch dieflig hwn lle mae gwahanu a dieithrio rhwng pobl yn feithrinfa ar gyfer camwybodaeth a gelyniaeth, a hynny yn ei dro yn cynyddu'r pellter rhwng pobl a chymunedau, gallwn deimlo'n ddiymadferth o ran cael unrhyw effaith ar newid ystyrlon. Gwyddom mai dim ond drwy chwalu'r rhwystrau rhwng pobl, a dileu ofn y naill o'r llall, y gallwn hyrwyddo ymatebion gwirioneddol gydweithredol, ar y cyd, i faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, economaidd a hinsawdd sy'n bygwth ein cymunedau. Ar adegau, gall y dasg hon ymddangos yn llethol.

Yn ein darlleniad o'r Ysgrythur heddiw, ystyriwn yr esiampl a osodwyd gan Grist yn estyn allan ar draws rhaniadau cymdeithas – yn fwriadol, gyda chyswllt personol, â rhywbeth gwerthfawr i'w gynnig, ond hefyd gan ofyn am help a pheidio â dadrymuso. Yn ein cymunedau eglwysig gallwn ganolbwyntio cymaint – ac mae hynny'n ddealladwy – ar sut y cawn ein galw i wasanaethu fel ein bod yn teimlo mai ein cyfrifoldeb ni yw dod at gymunedau ag atebion, a datrys eu problemau. Sut y gellid cryfhau ein dulliau o estyn allan drwy fod yn fwy parod i ofyn am yr hyn sydd ei angen arnom yn ogystal â rhannu'r hyn sydd gennym i'w gynnig, gan gydnabod ac arddangos cyd-ddibyniaeth pawb yn y gymuned?

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**
- Meddyliwch am adeg pan gawsoch brofiad o groesi ffin gymdeithasol. Sut oedd hynny'n teimlo ar lefel bersonol? Sut allai'r profiad hwn lywio eich cymorth i eraill?
- Pa raniadau rhwng pobl a grwpiau sy'n peri'r pryder mwyaf i chi yn eich cymuned ar hyn o bryd?
- Pa faterion a heriau sy'n achosi rhaniadau yn eich cyd-destun lleol?




**Gweithredu**
- Nodwch grwpiau o bobl yn eich cymuned nad oes gennych lawer o gyswllt â nhw. Pa gam cyntaf y gallech ei gymryd i sefydlu cysylltiad ag unrhyw un o'r grwpiau hyn?
- Nodwch yr anghenion yng nghyd-destun eich eglwys leol lle gallai cymorth allanol wneud gwahaniaeth. Ystyriwch ffyrdd y gallech estyn allan a gofyn am yr help hwnnw.
- Ystyriwch enghraifft o arfer da – yn lleol neu o gyd-destun gwahanol – lle mae'r Eglwys wedi cael effaith gadarnhaol yn pontio rhaniadau rhwng pobl. Archwiliwch ffyrdd o drosglwyddo hyn i feysydd eraill lle ceir rhaniadau cymdeithasol.

**Gweddi**
Dduw cariad,
mewn byd sy'n ymddangos fel pe bai'n rhwygo'n gynyddol,
helpa ni i gamu'n hyderus
i'r bwlch ym mherthynas pobl â'i gilydd
sy'n gwanhau ein cymunedau,
gan ddod nid yn unig â'r hyn sydd gennym i'w gynnig
ond yr hyn sydd ei angen arnom gan eraill hefyd.
Bydd yn agos at y rhai sy'n dioddef ar eu pen eu hunain,
yn agored i gael eu niweidio gan wenwyn camwybodaeth
ac yn drwgdybio rhai sy'n wahanol iddynt.
Helpa nhw i droi yn ôl o'r llwybrau
sy'n arwain at drais a pheri niwed,
a phrofi yn lle hynny
lawenydd cysylltiad
a diogelwch perthyn.
Amen




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 6 Ebrill am 6:45yh**
Dim rhaglen

**BBC radio cymru** *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 6 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp
Rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o emynau

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 6 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

# Adran Tystiolaeth

## Gwaith Ieuenctid

Cafwyd trafodaeth gyfoethog iawn dan arweiniad y cadeirydd Parchg Euron Hughes yn yr adran Dystiolaeth yn dilyn adborth o'r holiaduron a anfonwyd i'r cyfundebau parthed gwaith ieuenctid a phlant. Cafwyd ymateb gonest ac agored gan eglwysi, cyfundebau a phobl ifanc oedd yn rhoi blas a throsolwg ar waith ieuenctid a phlant ar hyd a lled y wlad. Daeth yr adran i'r casgliad bod darpariaeth gwaith plant ac ieuenctid yn amrywio yn fawr rhwng eglwysi a chyfundebau ond cafwyd ymateb oedd yn sôn am rai o bryderon pobl ifanc ein heglwysi sydd yn cynnwys; ysgol, pwysau gwaith, arholiadau, tyfu lan a newid hinsawdd ond i enwi ychydig.

Daeth yr adran i'r casgliad fod y darlun yn anghyflawn gyda nifer o gwestiynau dal heb eu hateb. Cafwyd trafodaeth galonogol gydag egni a gweledigaeth yn



dilyn yr adroddiad a daeth yr adran i benderfyniad i weithredu a thrafod y canlynol;

1. Cyfarfod i drafod ymhellach gwaith ieuenctid ac i fynd ati i greu strategaeth
2. Edrych ar sefydlu cronfa ariannol i helpu gyda gwaith ieuenctid, plant a chymuned yn benodol.
3. Creu ymgyrch blwyddyn yn debyg i 'Blwyddyn y Beibl Byw' gyda'r ffocws ar waith ieuenctid ac ysbrydolrwydd gan annog a chefnogi eglwysi i weddïo dros waith ieuenctid yn lleol a chenedlaethol.
4. Ymgysylltu a phartneriaid yn eglwysi ac yn eciwmenaidd sydd yn gwneud gwaith ieuenctid yn barod gan annog cyd-weithio. Soniwyd am 100 i Gymru a'r ffordd gallem ymgysylltu a'r eglwysi newydd.

## Cenhadaeth ddigidol

Cafwyd adroddiad gan Elinor ar ein cenhadaeth ddigidol. Nodwyd bod cynllun MSP4 yn dod i ben a welodd dwy flynedd o'r podlediad *Y Cwmni Bach*. Er bydd *Y Cwmni Bach* yn dod i ben, mae'r podlediadau'n esblygu ac mae sawl peth cyffrous ar y gweill.

## Criw cynnwys

Cafwyd cais gan Elinor a Rhodri am 'griw cynnwys', sef grŵp o ryw 3-4 person sydd yn barod i chwilio am frawddegau defosiynol, byr ar gyfer eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol. Bydd y deunydd hwn ar gael ar gyfer eglwysi yn ogystal.

Gofynnwyd hefyd i'r Undeb ystyried a oes angen gweithiwr ychwanegol yn Nhŷ John Penri i helpu gyda'r gwaith digidol.

**Dylan Rhys, Ysgrifennydd**

# PARADOCS

Beth yw paradocs? Paradocs yw gwrthddywediad ymddangosiadol! Ac mae'r Beibl yn frith ohonynt. Dyma rai enghreifftiau:

'Darostyngir pwy bynnag fydd yn ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pwy bynnag fydd yn ei ddarostwng ei hun.'
(Mathew 23:12)

'Felly bydd y rhai olaf yn flaenaf a'r rhai blaenaf yn olaf.'
(Mathew 20:16)

'Yr un sy'n ennill ei fywyd a'i cyll, a'r un sy'n colli ei fywyd er fy mwyn i a'i hennill.'
(Mathew 10:39)



## Gwrthddweud?

Ceir hefyd ddywediadau o'u cymharu â'i gilydd sy'n ymddangos fel eu bod yn gwrthddweud ei gilydd.

Dyma rai enghreifftiau eto:

'Paid ag ateb y ffŵl yn ôl ei ffolineb.'
(Diarhebion 26:4)

'Ateb y ffŵl yn ôl ei ffolineb.'
(Diarhebion 26:5)

'Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi.'
(Mathew 5:16)

'Cymerwch ofal i beidio â chyflawni eich gweithredoedd crefyddol o flaen eraill, er mwyn cael eich gweld ganddynt.'
(Mathew 6:1)

'Ein dadl yw y cyfiawnheir rhywun trwy gyfrwng ffydd yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith.'
(Rhufeiniad 3:28)

'Fe welwch felly mai trwy weithredoedd y mae rhywun yn cael ei gyfiawnhau, ac nid trwy ffydd yn unig.'
(Iago 2:24)

## Datrysiad

Sut mae datrys yr anghysonderau hyn? Dywed Duw, 'Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi' (Eseia 55:8). Mae meddwl anfeidrol Duw llawer uwch na meddwl meidrol dyn ac felly mae E'n gallu dal gwrthbwyntiau dynol yn gytbwys yn Ei feddwl dwyfol heb unrhyw wrthdaro rhyngddynt (y mae ffolineb Duw yn ddoethach na doethineb dynol: 1 Corinthiaid 1:25). Defnyddiodd Iesu'r dull o ddysgu trwy baradocs yn y Gwynfydau, e.e. 'Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd' (Mathew 5:3). Nid oes synnwyr arwynebol i'r geiriau hyn. Ond mae synnwyr ysbrydol yn perthyn iddynt. Mae cyd-destun y testun yn allweddol i ddeall y testun. Saif y Gwynfydau, er enghraifft, ar ddechrau'r Bregeth ar y Mynydd ac felly mae'r gwynfyd cyntaf yn disgrifio man cychwyn y pererin. O fod yn ymwybodol o'i dlodi ysbrydol mae dyn yn dechrau ar ei daith o feddiannu teyrnas nefoedd.

Y paradocs mwyaf yw'r Groes! Pwy feddyliai mai dyma fyddai ffynhonnell bywyd tragwyddol? Meddai Paul am 'y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw.'
(1 Corinthiaid 1:18).


Cofir am y croesbren garw
lle y cuddiwyd wyneb Duw,
lle gorffennodd Iesu farw,
lle dechreuais innau fyw;
dwed o hyd pa mor ddrud
iddo ef oedd cadw'r byd.

Eifion Wyn

**Peter H. Davies**

# LLYFR DIDDOROL

'Nôl yn 2016, cyhoeddwyd llyfr gan St Andrew's Press yn dwyn y teil *The Invisible Church: Learning from the experiences of churchless Christians* gan Steve Aisthorpe. Llyfr yw hwn sy'n edrych ar yr amrywiol resymau sy'n peri bod pobol yn gadael ein capeli a'n eglwysi, ond sy'n ddilynwyr Iesu. Gadawodd rhai eu heglwysi oherwydd iddynt deimlo nad oedd pobol yn yr eglwysi yn gwrando arnynt ac yn eu deall: 'Many church-leavers report a growing sense of not being understood.' (tud. 62). Eraill wedyn wedi gadael am i'r gynulleidfa fethu gweld eu hanghenion ysbrydol. Gall ymateb cynulleidfa wthio aelodau i'r ymylon nes iddynt adael, neu gall y gynulleidfa eu cofleidio a'u tynnu i ganol bywyd yr eglwys!




Mae eglwys felly yn tyfu a bywiocau pan fydd pobol yn ymdeimlo â'r Iesu byw, ac yn barod i rannu siwrne ffydd gydag eraill. Gall yr 'ymdeimlad' hwn ddigwydd o fewn adeilad crefyddol hanesyddol, ar lein, yn yr awyr agored ... neu yn unrhyw le. Dydy lleoliad ac adeilad 'eglwys neu gapel' ddim o bwys; bywyd ysbrydol a chynhwysol eglwys sy'n dwyn ffrwyth.

Y diweddar Barchedig Iorwerth Jones, Capel Als a ddwedodd flynyddoedd yn ôl 'Nid cofadail yw'r eglwys, ond mudiad.' Mae achos Iesu ar gerdded o hyd ... Cwestiwn neu ddau felly! Ydyn ni'n gynulleidfa sy'n gwrando ar ein gilydd, ynteu a fynnwn i eraill glywed yr hyn rydyn ni am ddweud? A ydym yn ymateb i anghenion ein gilydd ac eraill? Pam tybed, nad oes yna 'restr aros' o bobol sydd am berthyn i'n heglwysi ni? Oes gennych chi atebion neu sylwadau?

(allan o *Pigion Peniel* rhif 12 Chwefror 2025, cylchgrawn eglwys Annibynnol Peniel, Caerfyrddin)

# Apêl dros heddwch: Llythyr agored at arweinwyr y byd



Ar adegau o ryfel ac ansicrwydd, trown at ein ffydd, ein hegwyddorion, a'n dynoliaeth gyffredin i'n harwain tuag at lwybr gwell. Heddiw, wrth i wrthdaro barhau yn Wcráin, Rwsia, Israel, a Gaza, rhaid inni unwaith eto godi ein lleisiau mewn ple am heddwch.

Efallai na fyddwn ni, fel eglwys, yn dal grym gwleidyddol, ac nid ydym ychwaith yn eistedd wrth y byrddau ble mae cytundebau wedi'u llofnodi. Ond mae gennym rym gweddi, cymuned, a dewrder moesol. Erfyniwn ar arweinwyr y cenhedloedd hyn a'r rhai sydd â dylanwad arnynt i gofio'r ddyletswydd gysegredig sydd ganddynt –i amddiffyn bywyd, i gadw urddas, ac i ddewis heddwch dros ddistryw.

Nid yw rhyfel yn anochel. Mae'n ddewis. Ac yn union fel y dewisir rhyfel, felly hefyd y gellir dewis heddwch. Dylai dioddefaint pobl ddiniwed – teuluoedd, plant, yr henoed – bwyso'n drwm ar galonnau'r rhai sydd ag awdurdod. Rydym yn eu hannog i symud y tu hwnt i falchder, y tu hwnt i ddialedd, y tu hwnt i frwydrau pŵer, ac i mewn i oleuni cymod.

Dywedodd Iesu ei hun, 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd fe'u gelwir yn blant i Dduw.' (Mathew 5:9) Rydym yn galw ar bob arweinydd sy'n ymwneud â'r gwrthdaro hyn i gofleidio'r alwad gysegredig hon. Gosodwch yr arfau i lawr, ewch i ddeialog ystyrlon, a gweithiwch tuag at ddyfodol lle nad yw cenhedloedd yn codi yn erbyn cenhedloedd, ond yn hytrach yn ymestyn dwylo brawdoliaeth a chwaeroliaeth.

I'n haelodau a'n cymuned ein hunain, peidiwch ag anobeithio. Gadewch inni ddal ati i weddïo, i gefnogi ymdrechion dyngarol, ac i sefyll dros gyfiawnder a heddwch yn ein ffyrdd bychain ein hunain. Gallwn ni ddim pennu penderfyniadau arweinwyr y byd, ond gallwn lunio ein byd trwy ffydd, cariad, a gobaith diwyro.

## Gweddi dros heddwch

*Mae eglwys Capel Seion yn eich gadael â'r weddi hon, un y gellir ei llefaru yn ein heglwysi, ein cartrefi, ac yn nhawelwch ein calonnau:*

O Dduw trugaredd a chariad, deuwn ger dy fron â chalonnau trymion, dan bwysau y gwrthdaro sy'n rhannu cenhedloedd ac yn dinistrio bywydau. Dyrchafwn arweinwyr Wcráin, Rwsia, Israel, a Phalestina – y rhai sydd â'r pŵer i wneud rhyfel a'r pŵer i wneud heddwch.
Llanw eu calonnau â doethineb. Agor eu llygaid i ddioddefaint y diniwed a meddala eu hysbrydoedd, fel y ceisiont gyfiawnder ac nid dialedd a chymod, nid dinistr.
Arglwydd, gadawa i waedd y clwyfus gyrraedd eu clustiau. Gad i ddagrau'r galarus eu symud i dosturi,
A bydded i'th dangnefedd, sy'n rhagori ar bob deall, arwain eu penderfyniadau.
Gweddïwn dros y rhai sydd wedi'u dadleoli, i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid, i'r milwyr sy'n hiraethu am adref, ac i'r arweinwyr sy'n ymgodymu â dewisiadau anodd.
Boed i'th olau dorri trwy'r tywyllwch,
Boed i'th gariad wella clwyfau rhyfel,
A bydded i'th heddwch deyrnasu yng nghalonnau pawb.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist,
Tywysog Tangnefedd.
**Amen.**

*(oddi ar wefan Seion Drefach, 13 Mawrth, 2025)*

**Eglwysi yr Annibynwyr: Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont *ac* Eglwysi y Bedyddwyr: Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch**

**GOFALAETH NEWYDD**
**CYFLE NEWYDD**
**HER NEWYDD**

Mae aelodau'r eglwysi uchod yn awyddus i estyn galwad i

**WEINIDOG AMSER LLAWN**

i'w gwasanaethu a'u harwain i'r dyfodol gyda'r nod o hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn eu bro.

Paratowyd pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer darpar ymgeiswyr.
Cysyllter drwy e-bost neu alwad ffôn er mwyn derbyn manylion.

E-bost: eirianmevans@gmail.com
Ffôn: 01970 832473

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhyd-y-main Gwasanaeth Gŵyl Dewi








Prynhawn Sul, 2 Mawrth, cafwyd oedfa arbennig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng nghapel Rhyd-y-main. Braf oedd gweld cynulleidfa gref yn bresennol a chynifer yn cymryd rhan. Diolch i Rhian Nantcnydiw, Bethan a Sara, Braichbedw, Ann, Caryl a Tesni, Bryn Derw, Delyth, Beca, Nel a Hari, Rhydonnen, Marian, Deian a Morgan, Brithdir, ac i Gwenno, Ael y Bryn am gymryd rhan mor raenus. Diolch yn arbennig i'r plant am lefaru ac am ganu'r gân 'Dyn Da oedd Dewi' dan arweiniad Huw Ynyr ac i Olwen, Coedrhoslwyd, am fod yn llefarydd ac yn gyswllt rhwng y gwahanol gyfraniadau.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd cyfle i sgwrsio dros baned a chacen. Melys moes mwy!

Yn goron ar y cwbl, daeth y plant yn fuddugol yn y gystadleuaeth parti canu i rai dan 12 oed yng nghyfarfod cystadleuol Rhyd-y-main ar 7 Mawrth. Fel eglwys, rydym yn falch iawn ohonynt.

**Huw Alun Evans**

# Open Doors




Braf oedd cael croesawu Jim a Caleb Stuart i gwrdd gweddi Ebeneser, Caerdydd, ar nos Lun 10 Mawrth. Fe oleuodd Jim ein meddyliau a chyffwrdd ein calonnau wrth agor y drws i'r erlid sy'n digwydd ar Gristnogion yn fyd-eang a chyflwyno gwaith pwysig yr elusen Open Doors.

Rhannodd y cyfarfod i dair rhan gan aros ennyd i weddïo dros Gristnogion yn Eritrea, Bangladesh a chyfandir Affrica sy'n cael eu herlid. Diolch i Jim Stewart am ei waith ac am y cyflwyniad ardderchog.

Gwerthfawrogwn hefyd fod Open Doors yn darparu adnoddau Cymraeg ardderchog ar ein cyfer. Gellir lawrlwytho fideo Cymraeg i'w ddefnyddio mewn oedfaon oddi ar eu gwefan. www.opendoorsuk.org. Mae'r fideo yn cyflwyno, mewn modd dramatig iawn, y 10 gwlad anoddaf i fyw ynddynt fel Cristnogion.

Hefyd daeth â chopïau Cymraeg newydd sbon danlli o'r llyfryn a map 'Rhestr Gwylio'r Byd 2025'. Yn y llyfryn fe geir gwybodaeth am yr hanner can gwlad lle mae Cristnogion yn cael eu herlid waethaf. Ar y brig mae Gogledd Corea, Somalia ac Yemen. Gellir archebu copïau o'r llyfryn Cymraeg yn rhad ac am ddim ar eu gwefan: https://www.opendoorsuk.org/products/product/wwl25-top-50-welsh/

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*